

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad heddiw â Nesta Wyn Davies (Cefn Meiriadog) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Olwen. Hyderwn y byddwch yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodï drosoch yn eich galar a'ch hiraeth.

Anfonwn ein cofion at Berwyn Evans (Llansannan) dreuliodd ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar a pharhawn i gofio hefyd am Edna Evans (Llanfair) yn ein gweddïau. Da clywed fod Eurgain Pierce (Llanefydd) wedi cael dod adref o'r ysbyty a bod Gwen Lloyd Roberts (Llanefydd), fu yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty am ychydig ddyddiau, yn well. Newyddion da hefyd oedd clywed fod Eirlys Owen (Llanefydd) bellach wedi gwella'n ddigon da i gael dod adre. Cofiw'n ogystal am eraill o'n plith sy'n wynebu triniaethau ar hyn o bryd. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch, ac i Gwen Evans (Saron) sydd bellach yn cael gofal yng Nghartref Dolwen, Dinbych. Hyderwn eich bod oll yn profi gofal a grym ein gweddïau drosoch.

Llongyfarchiadau calonnog i Sioned Williams (Hiraethog) a Guto ar enedigaeth merch fach, Beca Mai. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Coleg Trefeca

Yn unol â chyfyngiadau cyfredol COVID, mae Coleg Trefeca yn falch o allu cynnig 'Llety Ystafell yn Unig' ar gyfer cartref neu swigen am £40 y noson. Mae'r holl ystafelloedd â dau wely gyda ystafell molchi preifat, a WiFi am ddim. Darperir cyfleusterau gwneud te a choffi, a gellir defnyddio'r barbeciw. Bydd y Capel Bach ar gael ar gyfer addoli a gweddïo tawel. Mae'r cynnig hwn yn agored i Weinidogion, Gweithwyr, Blaenoriaid ac Aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru. O dan y cyfyngiadau cyfredol, bydd gan eich cartref neu swigen ddefnydd unigryw o'r tir a'r bloc llety. Wrth i gyfyngiadau gael eu codi, efallai y gellir cynnig brecwast hefyd (am gost ychwanegol), ac efallai y bydd cartrefi eraill hefyd yn aros ar yr un pryd. Dyma gartref hanesyddol ac amgueddfa o henebion yn ymwneud â Howel Harris (1714-1773) a'r Diwygiad Methodistaidd. Lleolir mewn ardal o harddwch naturiol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r cynnig hwn o £40 y cartref/swigen ar gael tan y 31^{ain} Awst 2021. I archebu lle, e-bostiwch coleg.trefeca@ebcpcw.cymru

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (16^{eg}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 6 Mehefin 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Yr wythnos hon fe welais rywbeth am y tro cyntaf erioed – 28 o gwningod gwyllt yn yr un cae! Peidiwch â phoeni arddwyr a ffermwyr Bro Aled, ar Ynys Môn y gwelais yr olygfa hynod hon, ond roedd hi'n ddigon annisgwyl i fy stopio'n stond ar ganol fy nhro cerdded. Tybed beth sy'n gwneud i chi stopio popeth a rhyfeddu? Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad yw hyn yn digwydd yn aml i mi. Mor hawdd yw gadael i brysurdeb bywyd ein rheoli i'r graddau ein bod yn anwybyddu cymaint o'r hyn sy'n hardd ac yn drawiadol o'n cwmpas. Ac os yw hynny'n wir am yr hyn a welwn yn y greadigaeth, beth am arwyddion fod Duw ar waith o ddydd i ddydd? Fel mae anwybyddu natur a gwneud fel a fynnom gyda'r greadigaeth yn siŵr o arwain at broblemau amgylcheddol difrifol, felly hefyd mae anwybyddu Duw yn siŵr o achosi niwed sylfaenol i ddynoliaeth sydd wedi'i chreu i fod mewn perthynas â'i Chreawdwr. Nid yw'n syndod felly fod Duw oherwydd ei gariad mawr yn datgan yn Salm 46 beibl.net "Stopiwch! Mae'n bryd i chi ddeall mai Duw ydw i!"

"Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw," (yn ôl cyfieithiad BCND)

Sut allwn ni wneud hyn yn ystod yr wythnos nesaf? Efallai bod y dasg o stopio a meddwl am Dduw yn teimlo braidd yn fecanyddol, ond dyma mae Cristnogion wedi ei wneud ar draws y canrifoedd. Ac mae Duw yn ei ddaioni wedi rhoi ei Air i'n cynorthwyo i ddeall mai Ef sydd Dduw! Beth am gychwyn wrth dreulio ychydig funudau yn darllen o un o'r Efyngylau ac yna ystyried beth y mae'r hanesyn arbennig hwnnw'n ei ddangos i ni am Iesu Grist: beth mae Iesu'n ddweud amdano'i hun, beth yw'r addewidion y mae'n Ei roi i'w ddisgyblion? Wrth ddarllen a meddwl, cawn ein hannog i weddio am help yr Ysbryd Glân fel ein bod nid yn unig yn deall, ond yn gallu ymateb mewn ffydd i'r hyn sy'n dod i'r amlwg am ein Harglwydd graslon, ac un o'r ymatebion yw dweud wrth eraill. Wedi i mi syllu ar yr haid (ai dyna'r term am nifer fawr o gwningod?!) beth wnes i ond dweud wrth weddill y teulu am yr hyn yr oeddwn wedi ei weld! Dyma ffordd syml a naturiol o fod yn dyst i Iesu Grist, ac fe welwyd esiampl ohoni pan gyfarfu'r wraig wrth ffynnon Jacob ag Iesu am y tro cyntaf: "Dewch i weld dyn a ddywedodd wrthyf bopeth yr wyf wedi ei wneud. A yw'n bosibl mai hwn yw'r Meseia?" (Ioan 4:29)

Rhodri

Dychwelyd i'r Capel

Fel y gwyddoch, rydym fel Gofalaeth wedi ail-ddechrau cydaddoli mewn adeilad ar nos Sul **am 6:00 yr hwyr** gan ddefnyddio'r capel yn Llansannan gan bod mwy o le i ni allu cadw'r pellter angenrheidiol a hefyd oherwydd bod modd darlledu'r oedfa'n fyw ar y we oddi yno. Mae hon yn oedfa i'r Fro gyfan ond gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, rhaid i chi fod wedi cofrestru ymlaen llaw er mwyn ein galluogi i lunio cynllun eistedd. **Os mai ychydig fydd wedi cofrestru, neu os bydd y tywydd yn braf, hwyrach y bydd newid yn y trefniadau. Os felly, byddwn wedi cysylltu hefo'r rhai fydd wedi cofrestru i'w hysbysu o'r newid hwnnw.**

Rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau fydd mewn lle i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo tu allan a thu mewn i'r Capel, os gwelwch yn dda. Bydd yr oedfa hefyd yn cael ei darlledu'n fyw ar YouTube **am 6:00 yr hwyr** ac ar gael i chi wrando unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. Gallwch hefyd trwy glicio ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar dudalen flaen y wefan wrando ar yr oedfaon eraill a ddarlledwyd ar-lein dros y flwyddyn ddiwethaf.)

Cyhoeddiadau'r Fro

- Sul – 6^{ed}**
- **Oedfa i'r Fro** o dan arweiniad Rhodri a'r Parch. Isaias Grandis yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00 yr hwyr. Cofiwch mai nifer gyfyngedig all fod yn bresennol, felly, cysylltwch â Mair **erbyn nos lau, Mehefin 3^{ydd} i gofrestru**, os gwelwch yn dda. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
 - **Oedfa i'r Fro ar YouTube am 6:00 yr hwyr.** Os nad ydych yn gyfforddus i ddod i'r Capel (gweler uchod), gallwch wyllo'r oedfa ar YouTube. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen.)
- Llun – 7^{fed}**
- **Merched Gyfarfu â Iesu â'u neges i ni heddiw** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr. Y pumed sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwirydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)
- Mercher – 9^{fed}**
- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Sul – 13^{eg}

- **Oedfa deuluol (Llanefydd)** o dan ofal Steffan Job ar y Cae Chwarae am 11.00 (os bydd y tywydd yn caniatáu).
- **Oedfa i'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb. Cysylltwch â Mair **erbyn nos lau, Mehefin 10^{fed} i gofrestru**, os gwelwch yn dda. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
- **Oedfa i'r Fro ar YouTube am 6:00 yr hwyr.** Os nad ydych yn gyfforddus i ddod i'r Capel (gweler uchod), gallwch wyllo'r oedfa ar YouTube. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen.)

Mercher – 16^{eg}

- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Iau – 17^{eg}

- **Hyfforddiant i flaenoriaid a diaconiaid y Fro** ar Zoom am 7.00 yr hwyr o dan arweiniad Arwel Jones, Caernarfon.

Sul – 20^{fed}

- **Oedfa yng Nghapel Cefn Berain** o dan arweiniad Rhodri am 11.00. Cysylltwch ymlaen llaw â Meryl neu Eirian er mwyn sicrhau lle. (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com)
- **Oedfa i'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb. Cysylltwch â Mair **erbyn nos lau, Mehefin 17^{eg} i gofrestru**, os gwelwch yn dda. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
- **Oedfa i'r Fro ar YouTube am 6:00 yr hwyr.** Os nad ydych yn gyfforddus i ddod i'r Capel (gweler uchod), gallwch wyllo'r oedfa ar YouTube. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen.)

Medal Gee

Yn dilyn cyfarfod o Ymddiriedolwyr y cyngor Ysgolion Sul yn ddiweddar, cytunwyd mai annoeth eto eleni fyddai trefnu cyfafod cyhoeddus er mwyn dod â phobl oeddrannus o bob rhan o Gymru ynghyd i un lleoliad i gyflwyno'r Medalau Gee. Felly, bydd y sawl fydd yn derbyn medalau eleni yn eu derbyn yn eu heglwys leol ac yn cael eu cyflwyno naill ai gan y gweinidog neu gan aelod o Bwyllgor Cyngor yr Ysgolion Sul a all fod o fewn cyrraedd y capel hwnnw yn ystod mis Medi eleni.

Croesewir enwebiadau am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r Ysgol Sul (mae'r diffiniad o Ysgol Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd/seiadau trafod canol wythnos). Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried ar gyfer eleni fod wedi cyrraedd Y Parchg. Aled Davies, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli LL53 6SH erbyn Mehefin 30^{ain} fan hwyraf. Cliciwch ar y ddolen [Ffurflen Gais Medalau Gee](#) i lawrlwytho ffurflen enwebu, neu cysylltwch â Mair i gael copi papur.